

Twyll a llwgrwobrwyo

Rydym yn cydnabod, fel dosbarthwr arian a godir gan y Loteri Genedlaethol, ein bod mewn perygl o gael ein targedu ar gyfer twyll, llwgrwobrwyo a llygru.

Twyll wedi'i dargedu atom ni

Rydym wedi mabwysiadu dull dim goddefgarwch ac mae ein holl weithgareddau yn cael asesiad risg twyll.

Mae ein staff wedi'u hyfforddi i ymwybyddiaeth o dwyll a nodi gweithgarwch amheus. Bydd yr holl honiadau'n cael eu hymchwilio a bydd y sawl sy'n cyflawni'r achos yn cael ei adrodd i'r heddlu. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol am unigolion a sefydliadau sy'n ceisio ein twyllo.

Twyll wedi'i weithredu yn ein henw ni

A ydych wedi cael gwybod y gallwch dderbyn arian gennym?

Dim ond mewn ymateb i geisiadau grant yr ydym yn rhoi cyllid. Nid ydym yn gweithredu loteri, yn dyfarnu gwobrau nac yn dosbarthu arian mewn unrhyw ffordd arall.

Mae rhai loteriâu talu i hawlio yn cael eu hystyried gan yr Heddlu Metropolitan neu Fwrdd Hapchwarae Prydain Fawr fel rhai twyllodrus. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Heddlu Metropolitan drwy [e-bost](#) neu ewch i wefan [Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitaidd](#).

Byddwch yn ofalus a pheidiwch â rhoi eich arian na manylion i barti neu gwmni anhysbys. Cofiwch wirio statws cyfreithiol y sefydliad yn gyntaf.

Cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch twyll a llwgrwobrwyo, anfonwch e-bost at ein tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy enquire@heritagefund.org.uk neu ffoniwch 020 7591 6044 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am?5pm).